***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 797

## Rheoliadau Tenantiaethau Amaethyddol (Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau) (Cymru) 2024

## RHAN 2

### Ceisiadau am Gydsyniad y Landlord neu Amrywio Telerau

**Dyfarniadau neu benderfyniadau gan y cymrodeddwr**

**4.**—(1) Pan wneir atgyfeiriad at gymrodeddwr i benderfynu cais yn unol â rheoliad 3, caiff y cymrodeddwr orchymyn i'r landlord gydymffurfio â'r cais (naill ai yn llawn neu i'r graddau a bennir yn y dyfarniad neu'r penderfyniad) neu wneud unrhyw ddyfarniad arall neu unrhyw benderfyniad arall y mae'r cymrodeddwr yn ystyried ei fod yn rhesymol ac yn gyfiawn rhwng y landlord a'r tenant.

(2) Fel rhan o unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff (1), caiff y cymrodeddwr gynnwys unrhyw ddyfarniadau neu unrhyw benderfyniadau y mae'n ystyried eu bod yn rhesymol ac yn gyfiawn rhwng y landlord a'r tenant mewn cysylltiad ag—

(a) talu costau;

(b) pan wneir cais at ddibenion galluogi'r tenant i ofyn am gymorth ariannol perthnasol neu i wneud cais am gymorth o'r fath, amodau sy'n ymwneud â gwneud cais llwyddiannus;

(c) amodau sy'n cyfyngu ar allu tenant i wneud unrhyw atgyfeiriad dilynol am gymrodeddu o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â'r un cais ac mewn perthynas â'r un denantiaeth;

(d) amodau sy'n ymwneud â materion eraill gan gynnwys yr adeg y mae'r dyfarniad yn cymryd effaith.

(3) Ni chaiff y cymrodeddwr wneud unrhyw ddyfarniad nac unrhyw benderfyniad sy'n cynnwys amrywiad i rent y daliad fel rhan o unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff (1).

(4) Ni chaiff y cymrodeddwr wneud unrhyw ddyfarniad nac unrhyw benderfyniad mewn cysylltiad ag unrhyw ddigollediad sy'n daladwy i'r landlord neu'r tenant fel rhan o unrhyw ddyfarniad neu unrhyw benderfyniad a wneir o dan baragraff (1).

(5) Mae dyfarniad neu benderfyniad gan gymrodeddwr o dan y Rhan hon yn cael effaith fel pe bai'r telerau a'r darpariaethau a bennir ac a wneir yn y dyfarniad neu'r penderfyniad wedi eu cynnwys mewn cytundeb ysgrifenedig yr ymrwymwyd iddo gan y landlord a'r tenant ac sy'n cael effaith (drwy amrywio'r cytundeb a oedd mewn grym yn flaenorol mewn cysylltiad â'r denantiaeth) fel o'r adeg y gwnaed y dyfarniad neu'r penderfyniad neu, os yw'r dyfarniad neu'r penderfyniad yn darparu hynny, o unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir.